Ordinhad 21
Unedau Academaidd

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2020

ORDINHAD 21
UNEDAU ACADEMAIDD

1. Sefydliad

    1. Y canlynol fydd yr unedau academaidd a elwir yn Cyfadrannau, ac fe'u cydnabyddir gan y Cyngor o fod â'r cyfrifoldebau pennaf yn unol ag Ystatud 7. Y Cyfadrannau'r Brifysgol fydd y canlynol onibai y gwneir ychwanegiadau neu ddiddymiadau neu y newidir enw:

        a. Cyfadran y Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol
            i. Addysg;
            ii. Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu;
            iii. Celf;
            iv. Gwleidyddiaeth Ryngwladol;
            v. Hanes a Hanes Cymru;
            vi. Ieithoedd Modern;
            vii. Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol;
            viii. Y Ganolfan Saesneg Rhyngwladol;
            ix. Y Gyfraith a Throseddeg;
            x. Y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd;

        b. Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol
            i. Busnes;
            ii. Cyfrifiadureg;
            iii. Ffiseg;
            iv. Mathemateg;
            v. Rheoli Gwybodaeth, Llyfrgelloedd ac Archifau (iMLA);

        c. Cyfadran Gwyddorau Daear a Bywyd
            i. Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear;
            ii. Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig;
            iii. Seicoleg;

    2. I ddibenion academaidd a gweinyddol, gellir rhannu'r Cyfadrannau hyn yn is-unedau a elwir yn Ysgolion/Adrannau/Athrofeydd, yn unol â'r uchod. Bydd gan yr unedau hyn statws academaidd.

    3. Gall y Cyngor, trwy ymgynghoriad â'r Senedd, ychwanegu Cyfadrannau/Adrannau/Ysgolion/Athrofeydd, newid eu henwau, eu hailstrwythuro, eu hailgyflunio neu eu dileu.

2. Cyfansoddiad

    1. Bydd y Cyfadrannau yn cynnwys yr aelodau hynny o'r Staff Academaidd a'r aelodau eraill o staff a ddynodir iddynt o bryd i'w gilydd gan y Cyngor ar gyngor y Senedd.

    2. Yn unol ag Ystatud 7, fe fydd pennaeth i bob Cyfadran a chanddo/chanddi swyddogaethau a chyfrifoldebau penodedig. (Gweler Ordinhad 22).

    3. Bydd pennaeth gan bob Adran/Ysgol/Athrofa o fewn i Gyfadran, sydd â swyddogaethau a chyfrifoldebau penodedig.

3. Pwerau a Swyddogaethau

1. Gan bennaeth Cyfadran y bydd y cyfrifoldeb am redeg y Gyfadran honno, a bydd yn atebol i'r Is-Ganghellor, ac yn y pen draw i'r Cyngor.

2. Sefydlir Cyfadrannau dan y Siarter a'r Ystatudau i hwyluso trefnu gwaith academaidd y Brifysgol a phennir eu swyddogaethau, eu pwerau a'u cyfrifoldebau gan y Senedd a'r Cyngor wrth weithredu eu hawdurdod dan y Siarter a'r Ystatudau.